

Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol

Ar gyfer pwy y mae'r fframwaith?

Pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwyd sydd angen cymorth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw diben y fframwaith?

- Disgrifio'r canlyniadau llesiant pwysig y dylai pobl eu disgwyl er mwyn byw bywydau llawn. Bydd hyn yn rhoi llais cryfach i bobl a rheolaeth dros eu bywydau, ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus i sicrhau eu bod yn chwarae rhan i wella eu llesiant eu hunain.
- Pennu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer pob gwasanaeth sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddynt ac adeiladu ar gryfderau a gallu pobl i'w galluogi i gynnal lefel briodol o annibyniaeth gyda'r lefel briodol o ofal a chymorth.
- Darparu gwell tryloywder ar p'un a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant. Bydd hyn yn tynnu sylw at beth sydd angen ei wneud i wella llesiant pobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y prosesau sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth.


www.llyw.cymru

Pam ydym ni'n cynhyrchu'r fframwaith?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwyd sydd angen cymorth. Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni llesiant.

Pwy sy'n cyfrannu at hyn?

Mae'r fframwaith hwn yn mesur yr effaith mae pobl a gwasanaethau yn ei chael i wella llesiant.



Pwy ddatblygodd hyn?

Dywedodd pobl wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut dylid mesur hyn.



Sut y caiff ei fesur?

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol wedi cael ei gyhoeddi: <http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy>



Mae data eisoes wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol



Byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ysgrifenedig.